**MORECAMBE OFFSHORE WINDFARM LTD**

**ADRAN 56, DEDDF CYNLLUNIO 2008**

**RHEOLIAD 9 O REOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (CEISIADAU: FFURFLENNI A GWEITHDREFNAU RHAGNODEDIG) 2009**

**RHEOLIAD 16 RHEOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL) 2017**

**HYSBYSIAD O DDERBYN CAIS AM ORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU ("DCO")**

Hysbysir drwy hyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi derbyn cais gan Mona Offshore Wind Ltd (yr "Ymgeisydd") o 12 Alva Street, Caeredin, yr Alban, EH2 4QG am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ("DCO") o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ("y Cais"). Cyflwynodd yr Ymgeisydd y Cais i'r Ysgrifennydd Gwladol, D/O yr Arolygiaeth Gynllunio ar 31 Mai 2024 a chafodd ei dderbyn ar 27 Mehefin 2024. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi nodi'r cyfeirnod canlynol ar gyfer y Cais: EN010121.

**Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe (Y "Prosiect")**

Mae safle'r fferm wynt (sy'n cynnwys holl seilwaith y Prosiect) wedi'i leoli yn Nwyrain Môr Iwerddon, tua 30km o'r pwynt agosaf ar arfordir Swydd Gaerhirfryn, 50km o arfordir gogledd Cymru a 59km o arfordir Ynys Manaw. Mae'r Prosiect yn cyfeirio at Asedau Cynhyrchu sydd yn safle'r fferm wynt, gan gynnwys generaduron tyrbinau gwynt, ceblau rhyng-aráe, platfformau is-orsaf ar y môr a cheblau cyswllt platfform posibl i gysylltu platfformau is-orsaf ar y môr.

Pan fydd yn gweithio'n llawn, disgwylir i'r fferm wynt gynhyrchu capasiti enwol o 480MW a chynhyrchu pŵer adnewyddadwy ar gyfer dros 500,000 o gartrefi yn y Deyrnas Unedig.

Bydd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu arfaethedig, ymysg pethau eraill, yn awdurdodi'r canlynol:

a) Adeiladu a gweithredu hyd at 35 generadur tyrbinau gwynt ar y môr a'u sylfeini;
b) Adeiladu hyd at ddau blatfform is-orsaf ar y môr a'u sylfeini; ac
c) Adeiladu rhwydwaith o geblau rhyng-aráe dan y môr a cheblau cysylltu platfformau.

Gofynnir am orchymyn cydsyniad datblygu ar wahân ar gyfer yr asedau trawsyrru sydd eu hangen i gludo'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu gan y generaduron tyrbinau gwynt o'r Prosiect i'r lan ac ymlaen i is-orsaf bresennol y National Grid yn Penwortham, Swydd Gaerhirfryn. Mae cais sy'n gofyn am gydsyniad datblygu ar gyfer y seilwaith trawsyrru hwn, yn ogystal â seilwaith trawsyrru Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan, yn unol â chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 4 Hydref 2022 o dan adran 35 o Ddeddf Cynllunio 2008, yn cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyflwyno ar y cyd gan Morecambe Offshore Wind Ltd a Morgan Offshore Wind Limited.

**Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol -** Mae'r Prosiect yn ddatblygiad y mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn berthnasol iddo fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017. O ganlyniad, mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno Datganiad Amgylcheddol fel rhan o'r Cais. Mae Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol hefyd ar gael.

**Gweld y Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu**

Mae holl ddogfennau'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, gan gynnwys y ffurflen gais, y cynlluniau a'r mapiau, i'w gweld yn rhad ac am ddim ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio drwy gydol y cyfnod sylwadau perthnasol a chyfnod archwilio'r Cais yma: https://national-infrastructure-consenting.planninginspectorate.gov.uk/projects/EN010121.

Gallwch hefyd gael gafael ar y fersiynau ar-lein o ddogfennau'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn rhad ac am ddim yn y lleoliadau isod, tan o leiaf ddiwedd y cyfnod sylwadau perthnasol, sef 19 Awst 2024. Cysylltwch â'r lleoliadau yn uniongyrchol i gadarnhau beth yw eu horiau agor ac unrhyw ofynion o ran archebu neu gofrestru a allai fod eu hangen i gael gafael ar y dogfennau'n ddigidol ar y cyfrifiaduron sydd ar gael yn y lleoliadau priodol.

**Ynys Manaw**

| Lleoliad | Amseroedd agor |
|---|---|
| **Llyfrgell Henry Bloom Noble**<br>8 Duke Street, Douglas, Ynys Manaw, IM1 2AY | Llun - Mercher a Gwener: 8:30am-5pm<br>Iau: 10am-7pm<br>Sadwrn: 9am-4pm |
| **Llyfrgell Tref Ramsey**<br>Parliament Square, Ramsey, Ynys Manaw IM8 1RT | Llun - Iau a Sadwrn: 9am i 4:30pm<br>Gwener: 9am-4pm |

**Gogledd-orllewin Lloegr**

| Lleoliad | Amseroedd agor |
|---|---|
| **Prif Lyfrgell Gyhoeddus Barrow-in-Furness***<br>Ramsden Square, Barrow-in-Furness LA14 1LL | Llun i Iau: 9:30am-6pm<br>Gwener: 9:30am-5pm<br>Sadwrn: 10am-4pm |
| **Llyfrgell Ganolog Blackpool**<br>Queen St, Blackpool FY1 1PX | Mawrth - Gwener: 9am i 5pm,<br>Sadwrn: 10am-4pm |
| **Llyfrgell Fleetwood***<br>North Albert Street, Fleetwood, Swydd Gaerhirfryn, FY7 6AJ | Llun – Mercher, Gwener, Sadwrn: 9am-5pm<br>Iau: 9am-7pm |
| **Llyfrgell Formby**<br>Duke Street, Formby, L37 | Llun i Gwener: 10am-5pm<br>Sadwrn: 10am-2pm |
| **Llyfrgell Kingsfold***<br>Hawksbury Dr, Penwortham, Preston PR1 9EJ | Llun, Iau, Gwener: 9am-5pm<br>Mawrth: 9am-7pm<br>Mercher a Sadwrn: 9am-1pm |
| **Llyfrgell Lytham**<br>Lytham Assembly Rooms, Dicconson Terrace, Lytham St Annes, FY8 5JY | Llun a Sadwrn: 9am i 1pm,<br>Mercher: 9am i 7pm,<br>Iau a Gwener: 9am-5pm |
| **The Harris Library**<br>The Guild Hall, Lancaster Road, Preston PR1 1HT | Llun i Sadwrn: 9am-5pm |
| **Llyfrgell Southport***<br>112 Lord Street, Southport PR8 1DJ | Llun i Gwener: 10am-5pm<br>Sadwrn: 10am-2pm |
| **Llyfrgell St Anne's** | Llun, Mercher, Gwener, Sadwrn: 9am i 5pm,<br>Iau: 9am-7pm |

| | |
|---|---|
| 254 Clifton Dr S, Lytham Saint Annes FY8 1NR | |

**Gogledd Cymru**

| Lleoliad | Amseroedd agor |
|---|---|
| **Llyfrgell Amlwch***<br>Lôn Parys, Amlwch, Ynys Môn LL68 9EA | Mawrth: 9.30am i 12.30pm a 2pm i 5pm,<br>Mercher, Gwener, Sadwrn: 9.30am i 12.30pm,<br>Iau: 2pm-7pm |
| **Llyfrgell Gyhoeddus Bangor***<br>Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT | Llun, Mawrth, Iau: 9:30am i 6pm,<br>Mercher, Gwener: 9:30am-5pm<br>Sadwrn: 9:30am-1pm |
| **Llyfrgell Llandudno**<br>Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP | Llun i Mercher a Gwener: 9am i 5:30pm,<br>Iau: 10am i 7pm,<br>Sadwrn: 9:30am-3pm |
| **Llyfrgell y Rhyl***<br>Amgueddfa a Chanolfan Gelfyddydol y Rhyl, Stryd yr Eglwys, y Rhyl, LL18 3AA | Mawrth ac Iau: 10am i 5pm,<br>Mercher: 12pm-5pm<br>Gwener: 10am i 2pm,<br>Sadwrn: 9:30am i 12:30pm |

*Rhaid bod yn aelod a/neu rhaid cael cerdyn llyfrgell i ddefnyddio'r

Os oes angen dull arall o archwilio dogfennau'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu arnoch neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, gan gynnwys sut mae cael gafael ar y dogfennau ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio, ffoniwch yr Ymgeisydd ar 0800 915 2493 (opsiwn 2) neu anfonwch e-bost at hello@morecambeoffshorewind.com.

Gall yr Ymgeisydd hefyd ddarparu unrhyw un o'r dogfennau yn ôl yr angen ar USB (yn rhad ac am ddim). Gellir hefyd ddarparu copi caled o'r Crynodeb Annhechnegol ar gais rhesymol. Codir ffi hyd uchafswm o £6,500 a TAW am ddarparu copïau caled o'r Datganiad Amgylcheddol, er mwyn talu am y costau argraffu a phostio.

**Sylwadau Perthnasol**

Gall unrhyw un gofrestru fel Parti â Diddordeb drwy gyflwyno Sylwadau Perthnasol ar y Cais yn ystod y cyfnod cyflwyno sylwadau. Rhaid cyflwyno'r Sylwadau Perthnasol yn uniongyrchol i'r Arolygiaeth Gynllunio (gan roi hysbysiad i bob pwrpas o unrhyw fuddiant yn y Cais, neu wrthwynebiad iddo).

Rhaid i unrhyw Sylwadau Perthnasol gael eu cyflwyno ar y ffurflen gofrestru ofynnol a gaiff ei darparu gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a rhaid cynnwys manylion enw, cyfeiriad a rhif ffôn y parti, y prif gyflwyniadau a, phan fo'n ymarferol, manylion llawn y pwyntiau a godir. Cyfeiriwch at *Nodyn Cyngor 8.2: Sut mae Cofrestru i Gymryd Rhan mewn Archwiliad*, i gael rhagor o wybodaeth am y broses hon, mae ar gael ar-lein yma: https://www.gov.uk/government/publications/nationally-significant-infrastructure-projects-advice-note-eight-overview-of-the-nationally-significant-infrastructure-planning-process-for-members/nationally-significant-infrastructure-projects-advice-note-82-how-to-register-to-participate-in-an-examination

Rhaid llenwi'r ffurflen gofrestru Sylwadau Perthnasol ac mae hon ar gael ar-lein drwy dudalen prosiect Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yma: https://national-infrastructure-consenting.planninginspectorate.gov.uk/projects/EN010121

Cysylltwch â’r Arolygiaeth Gynllunio yn uniongyrchol os oes angen copi caled o’r ffurflen gofrestru arnoch, drwy ffonio 0303 444 5000 a rhoi enw’r Cais a chyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio, sef: EN010121. Gallwch anfon copi caled o'r ffurflen wedi’i llenwi at: The Planning Inspectorate, Temple Quay House, Temple Quay, BRYSTE BS1 6PN.

Sylwch y bydd yr holl sylwadau a gyflwynir yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio a byddant yn rhwym wrth ei pholisi preifatrwydd, sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/planning-inspectorate-privacy-notices

Gellir cyflwyno sylwadau perthnasol hyd at ac yn cynnwys 19 Awst 2024.

Mae rhagor o wybodaeth am Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe ar gael ar wefan y prosiect: www.morecambeandmorgan.com/morecambe neu drwy gysylltu â’r tîm ar 0800 915 2493 (opsiwn 2) neu anfonwch e-bost at hello@morecambeoffshorewind.com.